

Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

Adroddiad Blynyddol 2020-21 - Safonau'r Gymraeg

1. Rhagair

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Aelodau. Mae'r ddwy yn gweithio gyda'i gilydd, yn ystod y broses apelio a hawlio gan wneud tasgau gwahanol. Yr Aelodau yw:

- Llywydd y Tribiwnlys h.y. yr arweinydd barnwrol;
- Is-lywydd;
- cadeiryddion sy'n gyfreithwyr;
- aelodau proffesiynol sy'n syrfewyr siartredig; ac
- aelodau lleyg.

Mae'r tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan sawl un o aelodau'r tribiwnlys sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (h.y. cadeirydd sy'n gyfreithiwr, aelod proffesiynol ac aelod lleyg) a all gynnal gwrandawriad llawn drwy'r Gymraeg. Mae'r Is-lywydd hefyd yn siaradwr Cymraeg rhugl ac mae ganddo brofiad o ddelio â materion cyfreithiol yn Gymraeg.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am waith gweinyddol y tribiwnlys a delio â'r holl ymholiadau ffôn ac ysgrifenedig. Gweision sifil yw'r rhain a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Mae gan dîm yr ysgrifenyddiaeth ddau aelod sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn ogystal â'r Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru sydd ill dau hefyd yn rhugl.

Dyddiad cyhoeddi: **18/03/2021**

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: rpt@llyw.cymru

2. Trefniadau Goruchwyllo Cydymffurfiaeth

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i ddrafftio gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac mae wedi'i gymeradwyo gan Lywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn i'w weld ar wefan y Tribiwnlys ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi'i gyhoeddi.

3. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau trwy:

- Darparu canllawiau i staff am sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.
- Templedi llythyrau, sy'n cynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau.
- Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyflwyno system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Bydd y Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwysu 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwysu 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.
 - Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r system ffôn newydd wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus i'r Tribiwnlys.

Defnyddio ein Gwasanaethau:

Derbyniodd y tribiwnlys 106 o geisiadau yn 2020-21, ac o'r ceisiadau hyn, ni ofynnwyd i'r un ohonynt gael eu prosesu yn Gymraeg ac o ganlyniad ni chynhaliodd y tribiwnlys unrhyw wrandawiadau yn Gymraeg.

Gwefannau

Nodir isod fanylion y niferoedd o weithiau yr ymwelwyd â hafan y Tribiwnlys ar y rhyngwrdd, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

	Saesneg	Cymraeg	Cyfanswm
Nifer o weithiau yr ymwelwyd â'r dudalen	27,212	432	27,644

Safonau Lluio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Fodd bynnag, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar gyflenwi ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Tribiwnlys (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Lluio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys:

<https://tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/sites/residentialproperty/files/2019-01/welsh-lang-compliance-notice-cy.pdf>

Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn, os bydd cwyn o gwbl, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.